

CYNGOR CYMUNED LLANFAIR MATHAFARN EITHAF

COFNODION o gyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd yn Neuadd Goffa Goronwy Owen, Benllech ar Nos Lun, 22 Mehefin, 2015 am 7.00 o'r gloch.

PRESENNOL Mr R O Jones, (Cadeirydd), (Benllech A), Mr P Brook, (Benllech A), Mr J Cotterell, (Benllech A), Ms G M Davies, (Benllech A), Mr P Day, (Benllech B), Mr K F Griffiths, (Benllech A), Mrs W Owen, (Llanbedrgoch), Mrs J Peers, (Llanbedrgoch), Mrs D Roberts, (Benllech B), Mr I Williams, (Benllech B).

22 PENODI CADEIRYDD 2015 / 2016

Yn dilyn y Cyfarfod Blynyddol a gynhaliwyd ym mis Mai derbyniwyd llythyr o ymddiswyddiad gan Mr Paul Brook a etholwyd yn ei absenoldeb fel Cadeirydd y Cyngor am 2015/2016. O ganlyniad trafodwyd ethol Cadeirydd newydd ac etholwyd Mr Rhys Owain Jones yn unfrydol.

23 YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y canlynol :- Mr G Harker-Roberts, (Brynteg) a Miss N Williams, (Benllech B).

24 COFNODION.

Llofnododd y Cadeirydd Gofnodion Gyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 26 Mai 2015.

LLWYBRAU, FFYRDD A PHALMENTYDD

25 CYNGOR SIR YNYS MÔN - YMATEB I FATERION PRIFFYRDD

Cyflwynwyd er gwybodaeth - gohebiaeth a dderbyniwyd gan Gyngor Sir Ynys Môn a oedd yn ymateb i faterion priffyrdd a gyfeiriwyd ato gan y Cyngor Cymuned.

26 MATERION PRIFFYRDD AMRYWIOL.

Adroddwyd gan aelodau – amrywiol faterion a oedd angen sylw.

GOHEBIAETH

27 CYNGOR SIR YNYS MÔN - CANIATÂD ARBENNIG I GYNGHORWYR.

Cyflwynwyd er gwybodaeth - nodyn gan Gyngor Sir Ynys Môn mewn perthynas â chaniatâd arbennig i Gynghorwyr pan maent yn ystyried diddordeb rhagfarnus dan y Cod Ymddygiad. Gall Cynghorwyr gael hawl “caniatâd arbennig” gan Bwyllgor Safonau'r Cyngor Sir fel bo modd iddynt gymryd rhan mewn mater y mae ganddynt ddiddordeb rhagfarnus yn ei gylch.

28 PARTNERIAETH GWYNEDD AG YNYS MÔN - PROSIECT ADEILADU CYMUNEDAU.

Cyflwynwyd - llythyr gan Bartneriaeth Gwynedd ac Ynys Môn yn egluro “Prosiect Adeiladu Cymunedau Seiriol” sy'n treialu'r syniad o gyd-gynhyrchu, lle mae cymunedau, y sector wirfoddol (Medrwn Môn) a sefydliadau yn y sector gyhoeddus yn gweithio gyda'i gilydd, i gynllunio a darparu gwasanaethau. Mae'r Prosiect i gael ei ehangu i gynnwys Wardiau Canolbarth Mon a Lligwy ac estynnir gwahoddiad i Gadeirydd ag Is-gadeirydd Cyngor Cymuned Llanfair M.E. i gyfarfod yng Nghanolfan Ebeneser yn Llangefni, nos Fawrth 30 Mehefin am 5-30 y prynhawn.

PENDERFYNWYD – fod y Cadeirydd, Mrs Diana Roberts a'r Clerc yn mynd i'r Cyfarfod.

29 YSGOL GORONWY OWEN – LLYTHYR DIOLCH.

Cyflwynwyd er gwybodaeth – llythyr gan ddisgyblion Ysgol Goronwy Owen yn dilyn rhodd o £100 a wnaed gan y Cyngor at ymgyrch Siarter Iaith Gymraeg yr Ysgol.

30 UN LLAIS CYMRU – DEDDF LLYWODRAETH LEOL (DEMOCRATIAETH) (CYMRU) 2013.

Cyflwynwyd er gwybodaeth – llythyr yn cywiro datganiad mis Mai parthed cofrestru buddiannau personol Cynghorwyr Cymuned gan Un Llais Cymru. Yn dilyn trafodaethau gyda Llywodraeth Cymru daeth yn amlwg fod yr eithriad a oedd yn bodoli cyn Deddf 2013 yn parhau ac nid oedd rhaid i aelodau gyflenwi manylion o'i buddiannau ar-lein i'r dyfodol. Fodd bynnag roedd anghenraid i aelodau ddatgan budd personol ac os yn briodol, rhagfarnol ynghylch materion perthnasol pan maent yn bresennol mewn cyfarfodydd.

31 CYNGOR SIR YNYS MÔN - YR EISTEDDFOD GENEDLAETHOL

Cyflwynwyd er gwybodaeth - gwahoddiad gan Arweinydd Cyngor Sir Ynys Mon i Gyfarfod Cyhoeddus i drafod gwahodd yr Eisteddfod Genedlaethol i Fôn yn 2017. Y cyfarfod i'w gynnal yn Neuadd Ysgol Gyfun, Llangefni am 6-30 yr hwyr ddydd Iau, 25 Mehefin 2015.

32 UNDEB AMAETHWYR CYMRU – DADORCHUDDIO PLAC COFFA

Cyflwynwyd – llythyr diolch gan Undeb Amaethwyr Cymru am rodd y Cyngor tuag at sefydlu Plac Coffa i Ferched Byddin y Tir ar faes Sioe Mon. Hefyd gwahoddiad i ddau aelod o'r Cyngor i seremoni dadorchuddio'r Plac Coffa i'w gynnal ar Faes y Sioe ar 26 Mehefin 2015 am 2-30 y prynhawn.

PENDERFYNWYD – y buasai Mrs J Peers yn cynrychioli'r Cyngor yn y digwyddiad.

BILIAU A CHYFRIFON

33 BILIAU

PENDERFYNWYD - talu'r biliau a ganlyn :-

| | | |
|-------------------------------------|-----------------------|----------|
| Edwards Accounting | Paratoi gwybodaeth | £30-00 |
| Eira Fôn Parry | Gwasanaeth cyfieithu | £50-00 |
| Lingo Cyf | Hurio offer cyfieithu | £36-00 |
| Cemetery Development Services | Rheoli Prosiect | £2640-00 |

34 CYFRIFON

Cyflwynwyd - cyfrif yn dangos manylion y taliadau a wnaethpwyd gan y Clerc (yn cynnwys taliadau o dan Gynllun Dirprwyo cyfredol y Cyngor) ym Mai, 2015.

PENDERFYNWYD – nodi'r cyfrif a chymeradwyo'r taliadau.

35 CYLLIDEB Y CYNGOR

Cyflwynwyd - manylion o dderbyniadau a gwariant y Cyngor i gymharu â'i gyllideb am y cyfnod o Ebrill 1, 2015 i ddiwedd mis Mai, 2015.

PENDERFYNWYD – nodi a chymeradwyo'r manylion.

MATERION CYFFREDINOL

36 McCARTHY & STONE – DARPARIAETH LLETY POBL HYN YM MENLLECH.

Derbyniwyd llythyr gan McCarthy & Stone yn manylu eu bwriad i wella dewis llety i bobl hyn ym Menllech drwy ddatblygu safle Gwesty Glanrafon. Gwahoddwyd dau aelod o'r Cyngor i gyflwyniad o fwriadau adeiladu'r cwmni ar yr 22ain o Fehefin yng Ngwesty'r Breeze Hill ym Menllech. Cafwyd adroddiad gan Mr Peter Day a Mr Paul Brook o'r cyflwyniad a oedd yn golygu chwalu'r adeilad presennol ac adeiladu deugain o unedau un a dwy lofft safonol. Buasai saith ar hugain o fannau parcio ar y safle. Mae rhyddid i unigolion dros 60 oed i brynu uned ac mae cyfartaledd oed preswylwyr unedau drwy'r cwmni yn 78.

Bydd Rheolwr Tŷ ar y safle bum diwrnod yr wythnos a byddai sustem "Careline" mewn bodolaeth bedair awr ar hugain saith diwrnod yr wythnos. Ym marn cynrychiolwyr y Cyngor mae'r cynlluniau yn rai safonol ac yn addas i ardal lle mae llawer o unigolion yn ymddeol.

Yn ystod mis Gorffennaf bydd cynlluniau llawn wedi ei paratoi a bydd arddangosfa i'r cyhoedd yn gyffredinol cyn bydd McCarthy & Stone yn gwneud cais cynllunio ffurfiol.

37 TELEDU CYLCH CYFYNG.

Trafodwyd e-bost cwmni Teledu Cylch Cyfyng a oedd yn ceisio ateb i'w cynnig i ymestyn y cytundeb presennol am flwyddyn eto. Fodd bynnag roedd y telerau a gynigwyd yn dra gwahanol i'r blynyddoedd cynt gan mai cytundeb cost llafur yn unig a oedd y cwmni am gynnig. Pe buasai galw i brynu offer newydd rhaid fyddai talu pris llawn y farchnad. Nid oedd yr aelodau yn fodlon gyda'r telerau newydd bwriedig.

Penderfynwyd hysbysebu yn y wasg am ddatganiadau o ddiddordeb gan gwmnïau yn y maes i reoli sustem Teledu Cylch Cyfyng y Cyngor.

38 MYNWENT GYHOEDDUS LLANFAIR M.E.

Derbyniwyd adroddiad gan Mr Alex Vickers o gwmni Cemetery Development Services (Rheolwr Prosiect) yn dilyn ei ymweliad a'r Fynwent wedi cwblhau gwaith y Cynllun Draenio gan gwmni Wright Landscapes.

Eglurodd Mr Vickers fod y gwaith peirianyddol wedi ei gwblhau a'i fod o safon dderbyniol. Roedd y gwaith trin y pridd arwynebol ac ail-hadu'r gwelltglas i fynnu a'r gofynion a buasai'n dderbyniol i derfynu pan fuasai'r gwelltglas wedi tyfu i 90% o arwynebedd y safle. Fodd bynnag awgrymodd atal £500 o werth y cytundeb ar hyn o bryd.

Roedd tystiolaeth o wnhingod yn bwyta'r gwelltglas fel yr oedd yn egino ond nid oedd dim ateb i'r broblem yma. Awgrymodd Mr Vickers y buasai'n briodol i dorri'r glaswellt pan oedd ddim mwy na 50mm o uchdwr a sicrhau fod 35mm o welltglas ar ôl torri.

Terfynwyd y Cyfarfod am 8-00 yr hwyr.